## Ble a Phryd?

**Parc Ynysangharad a thref Pontypridd, 3-10 Awst 2024**

## Beth sy'n digwydd?

Dewch draw i Rhondda Cynon Taf i fwynhau gŵyl deithiol fwyaf Ewrop. Cannoedd o weithgareddau o bob math ar gyfer y teulu cyfan drwy'r dydd bob dydd, ac yn hwyr i'r nos. Dewch i gael blas ar ein hiaith a'n diwylliant ar eu gorau

## Croeso!

**Dysgu Cymraeg?**

Dewch i fwynhau defnyddio eich Cymraeg a chyfarfod ffrindiau newydd sy'n dysgu ac yn mwynhau sgwrsio. Mae'r Gymraeg ym mhobman yn yr Eisteddfod, felly mae'n lle gwych i ddod i ymarfer

Beth am annog ffrindiau i fynd ati i ddysgu ein hiaith? Mae gwersi a chyrsiau ar gael i siwtio pawb. Ewch draw i www.learnwelsh.cymru am ragor o wybodaeth

## Gyda'r nos

Bydd pob math o weithgareddau ar y Maes ac o amgylch y dref gyda'r nos, gan gynnwys gigs, sioeau, dramâu ac ambell syrpreis! A chofiwch am frawd bach y 'Steddfod, **Maes B** – yr ŵyl gerddoriaeth gyfoes Gymraeg fwyaf yn y byd!

## When and Where?

**Ynysangharad Park and Pontypridd town centre, 3-10 August 2024**

## What's it all about?

Come to Rhondda Cynon Taf to enjoy Europe's largest travelling festival. Hundreds of events and activities for the whole family all day every day, and late into the evening. Come and have a taste of our language and culture at their best

## Croeso!

**Learning Cymraeg?**

Come and enjoy chatting in Welsh and meet new friends who are learning. Welsh is everywhere at the Eisteddfod and it's a great place to come and have a go!

There's free translation across the Maes. Keep an eye for the little logo and pick up your free translation equipment. And if you're thinking of learning Welsh, pop into Maes D to find out more, or go to www.learnwelsh.com to find a course that works for you

## In the evening


There are all kinds of events and activities on the Maes and around the town in the evening, including gigs, shows, plays and a few surprises! And don't miss the Eisteddfod's little brother, **Maes B** – the world largest contemporary Welsh language music festival!

## Sut i gyrraedd

Ewch ar-lein o fis Mehefin 2024 neu defnyddiwch www.traveline.cymru

## How to find us

Go online from June 2024 or go to www.traveline.cymru




EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
3-10 Awst 2024

RHONDDA CYNON TAF




EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
3-10 Awst 2024

#steddfod2024
eisteddfod.cymru

## Beth yw'r Eisteddfod?

**Mae'r Eisteddfod yn ŵyl gyfeillgar, gynnes a chynhwysol, sy'n ddathliad eclectig o'n hiaith a'n diwylliant, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu hyd at 170,000 o ymwelwyr i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2024**

Rydyn ni'n ddathliad o'r celfyddydau i gyd, gyda gweithgareddau sy'n cynnwys cerddoriaeth, Celfyddydau gweledol, llenyddiaeth, theatr stryd a dawns, gwyddoniaeth a thechnoleg, gweithgareddau i blant, cerddoriaeth werin, a llawer mwy! Rhywbeth i bawb drwy gydol yr wythnos

Bydd hon yn Eisteddfod wahanol i'r arfer, yn ŵyl drefol, amgen a chyffrous, sy'n cyfuno'r ardal leol gyda'r Eisteddfod. Gyda **Pharc Ynysangharad** yng nghanol y dref yn ffocws i fwyafrif y gweithgareddau a'r is-bafiliynau, bydd y Maes hefyd yn cynnwys rhannau o'r dref gan greu profiad unigryw i'n hymwelwyr a thrigolion lleol

Rydyn ni'n un o'r prosiectau cymunedol mwyaf yng Nghymru, ac mae croeso mawr i chi ymuno â ni! Cysylltwch â gwyb@eisteddfod.cymru i fod yn rhan o'r tîm. Rydyn ni'n gweithio ar draws Rhondda, Cynon a Thaf i godi arian ac ymwybyddiaeth, felly beth am gysylltu i gael gwybod mwy?

### Busnesau a Chwmnïau
Rhedeg busnes neu gwmni'n lleol ac eisiau cefnogi neu weithio gyda ni? Cysylltwch! Anfonwch e-bost at gwyb@eisteddfod.cymru er mwyn i ni gael sgwrs. Bydd stondinau ar gael i'w llogi ar y Maes yn y gwanwyn, felly dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf

### Cyflwyno Gwobr
Hoffech chi gyflwyno gwobr i gofio rhywun annwyl neu sefydliad sy'n bwysig i chi? Ewch ar-lein, www.eisteddfod.cymru am ragor o wybodaeth ac i'n helpu ni i gyrraedd targed y Gronfa Leol

### Cynnig Rhodd
Mae'r Eisteddfod yn elusen ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn am bob rhodd sy'n ein helpu ni i gyrraedd targed ein Cronfa Leol. Anfonwch e-bost at rct@eisteddfod.cymru am ragor o wybodaeth a gweld sut gall eich rhodd chi wneud gwahaniaeth i ni

### Gwirfoddoli
Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'r tîm yn ystod y flwyddyn ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod ei hun. Cyfleoedd ar gael ar-lein, www.eisteddfod.cymru o'r flwyddyn newydd ymlaen

### Cystadlu
Prynwch gopi o'r **Rhestr Testunau** neu ewch i'n porth cystadlu o ddiwedd y flwyddyn ymlaen i weld pa gystadlaethau sydd ar gael. Mae gennym ni wobrau hael a chyfleoedd ardderchog i bawb ddangos eu doniau!


















## What is the Eisteddfod?

**We're a friendly, warm and inclusive festival, and an eclectic celebration of our language and culture, and we're looking forward to attracting up to 170,000 visitors to Rhondda Cynon Taf in 2024**

We're a celebration of all the arts, with activities that include music, visual arts, literature, street theatre and dance, science and technology, children's activities, folk music and culture and much more! Something for everyone throughout the week

**Ynysangharad Park** in the centre of Pontypridd will provide a focus for most activities and pavilions, and the Maes will also include parts of the town itself, creating an urban, alternative, and exciting Eisteddfod, combining the local area with the festival itself and creating an unique experience for visitors and residents alike

We're one of the largest community projects in Wales, and there's a warm croeso for anyone who'd like to join us. We're working across Rhondda, Cynon and Taf to raise awareness and funds, so get in touch to find out more!

### Businesses
Do you run a local business and want to get involved? Send us an email, gwyb@eisteddfod.cymru, so we can chat. Our tradestands will be available to hire in the spring, so follow us on social media for the latest news

### Donate a Prize
Would you like to present a prize to remember a loved one or an organisation close to your heart? Go online, www.eisteddfod.wales, for more information, and help us to reach our Local Fund target

### Financial Gift
We're a charity and are grateful for every donation which helps us to reach our Local Fund target. Send us an email, rct@eisteddfod.cymru for more information and see how you can make a difference

### Volunteering
We're looking for volunteers to join the team during the year and during festival week itself. Opportunities available online, www.eisteddfod.wales, from the new year onwards

### Competing
Buy a copy of the **Rhestr Testunau** (List of Competitions) or go to our online competitions portal from the end of the year to see what competitions are available. We've got a range of generous prizes and great opportunities for everyone to showcase their talents!